# 1. Trosolwg

1.1 Ofcom yw rheoleiddiwr cyfathrebiadau'r Deyrnas Unedig, sy'n goruchwylio sectorau gan gynnwys telathrebu, post, teledu darlledu a radio. O dan Ddeddf Diogelwch Ar-lein 2023 ('y Ddeddf'), Ofcom hefyd yw rheoleiddiwr y DU ar gyfer diogelwch ar-lein.

1.2 Gwaith Ofcom yw gwneud gwasanaethau ar-lein yn fwy diogel i'r bobl sy'n eu defnyddio, yn enwedig plant. Mae'n ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau ar-lein rheoleiddiedig ('darparwyr') gael systemau effeithiol ar waith i ddiogelu pob defnyddiwr rhag cynnwys anghyfreithlon.

1.3 Mae'r datganiad hwn yn nodi ein penderfyniad i argymell y dylai rhai darparwyr gwasanaeth ddefnyddio technoleg 'paru hash' i ganfod achosion o gam-drin delweddau personol a lleihau ei ledaeniad ar-lein.

1.4 Creodd y Ddeddf droseddau newydd sef rhannu neu fygwth rhannu delweddau personol heb ganiatâd ('cam-drin delweddau personol'). Mae cam-drin delweddau personol yn cael effeithiau seicolegol, emosiynol, proffesiynol a pherthynol negyddol dwfn ar oroeswyr a dioddefwyr, sy'n cael eu gwaethygu gan yr heriau y maent yn eu hwynebu wrth gael cynnwys wedi'i ddileu, a'r ofn y gallai ailymddangos ar-lein. Mae cam-drin delweddau personol yn niwed eang, mae tystiolaeth yn awgrymu ei fod yn cynyddu o ran nifer yr achosion, ac mae ymlediad offer deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol (GenAI) yn achosi cynnydd pellach. Gan adlewyrchu difrifoldeb y datblygiad hwn, mae Senedd y DU wedi penderfynu ei gwneud yn drosedd i wneud neu gyflenwi offer AI y gellir eu defnyddio i greu delweddau personol.

1.5 Mae rhai darparwyr gwasanaeth eisoes yn defnyddio paru hash i fynd i'r afael â cham-drin delweddau personol, ac mae'r dystiolaeth yn awgrymu ei fod yn offeryn effeithiol ar gyfer canfod delweddau personol sydd wedi'u rhannu heb ganiatâd. Gall defnydd mwy eang o baru hash helpu i leihau nifer yr achosion o gam-drin delweddau personol sy'n cael eu rhannu a'u gweld ar-lein.

1.6 Ym mis Mehefin 2025, gwnaethom ymgynghori ar nifer o fesurau diogelwch ychwanegol, gan gynnwys argymhelliad y dylai rhai darparwyr gwasanaeth ddefnyddio technoleg paru hash i ganfod achosion o gam-drin delweddau personol. Ar ôl ystyried adborth rhanddeiliaid yn ofalus, rydym wedi penderfynu cadarnhau'r argymhelliad hwn cyn y mesurau diogelwch ychwanegol eraill a gynigiwyd yn ymgynghoriad Mehefin 2025. Wrth argymell y mesur hwn, ein nod yw sicrhau bod darparwyr gwasanaeth yn defnyddio cronfa ddata paru hash sy'n gyfwerth â neu'n well na'r gronfa ddata trydydd parti flaenllaw, StopNCII.org, a fydd yn lleihau nifer yr achosion o gam-drin delweddau personol ar eu gwasanaethau yn sylweddol.

### Yr hyn rydym wedi'i benderfynu – yn gryno

Yn y datganiad hwn, rydym yn nodi ein penderfyniad i gadarnhau ein hargymhelliad y dylai'r darparwyr gwasanaeth canlynol ddefnyddio technoleg 'paru hash' i ganfod cam-drin delweddau personol:

- Darparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sydd â risg uchel o gam-drin delweddau personol ac sydd naill ai:
  - > yn wasanaethau sydd â'r prif bwrpas o gynnal neu ledaenu cynnwys pornograffig rheoleiddiedig; neu

> yn wasanaethau rhannu ffeiliau a storio ffeiliau; neu
> yn wasanaethau sydd â mwy na 700,000 o ddefnyddwyr gweithredol misol yn y DU.

- Darparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr mawr[1] sydd â risg ganolig o ran cam-drin delweddau personol.
- Darparwyr gwasanaethau chwilio cyffredinol mawr.

Rydym wedi gwneud rhai newidiadau i'r mesur yn dilyn ymgynghoriad. Rydym wedi:

- Ehangu’r argymhelliad i ddefnyddio  cronfa ddata trydydd parti i bob darparwr gwasanaeth, oni bai bod ganddynt gronfa ddata fewnol gyfwerth neu well;
- Diwygio’r meini prawf ar gyfer diffinio cronfa ddata paru hash briodol.
- Egluro'r disgwyliadau ar gyfer adolygu delweddau yn erbyn cronfa ddata paru hash, gan gynnwys y ffactorau y mae'n rhaid i wasanaethau eu hystyried wrth ddefnyddio adolygiad dynol i benderfynu a yw'r cynnwys yn gamdriniaeth ddelwedd personol ac at ddibenion sicrhau ansawdd.
- Argymell paru hash canfyddiadol (lle mae’r gronfa ddata a ddefnyddir yn galluogi hyn) neu baru hash cryptograffig i ganfod camdriniaeth delweddau personol sy’n seiliedig ar fideo;
- Ychwanegu argymhelliad i hysbysu darparwr cronfa ddata am hashiau nad ydynt yn gynnwys cam-drin delweddau personol.

Rydym yn nodi ein rhesymeg dros y gwelliannau hyn ym Mhennod 3 o'r datganiad llawn.

## Camau nesaf

1.7 Cyhoeddir y gwelliannau drafft a nodir yn y datganiad hwn i'r Codau Ymarfer Cynnwys Anghyfreithlon (Codau Cynnwys Anghyfreithlon) yn cael eu cyhoeddi ar wahân yn Haf 2026. Felly nid ydynt mewn grym eto. Fodd bynnag, rydym wedi cyhoeddi fersiynau cyfunol drafft o’r Codau Cynnwys Anghyfreithlon sy’n dangos y gwelliannau yn eu cyd-destun.

1.8 Yn amodol ar y broses Seneddol, rydym yn disgwyl i'r gwelliannau drafft a nodir yn y datganiad hwn ddod i rym yn Hydref 2026.

1.9 Yn hydref 2026, rydym yn disgwyl cyhoeddi ein penderfyniad ar y mesurau diogelwch ychwanegol eraill a gynigiwyd yn ein hymgynghoriad yn Hydref 2026.

1.10 Yn ogystal, ym mis Rhagfyr 2025, creodd llywodraeth y DU ddwy 'drosedd flaenoriaeth' newydd o dan y Ddeddf: annog neu gynorthwyo hunan-niweidio difrifol, a seiberfflachio. I adlewyrchu hyn, gwnaethom ymgynghori ar newidiadau arfaethedig i'r dogfennau a'r canllawiau rheoleiddiol ar Niwed Anghyfreithlon ym mis Ebrill 2025 ac rydym yn disgwyl cyhoeddi ein datganiad terfynol a'n dogfennau yn haf 2026.

[1] Diffinnir gwasanaeth mawr fel gwasanaeth gyda mwy na 7 miliwn o ddefnyddwyr gweithredol misol yn y DU.